# Sut i gyflawni Maniffesto Kids in Museums heb lawer o gost, neu'n rhad ac am ddim

Ein syniadau gorau ar gyfer gweithredu pwyntiau ein maniffesto ar eich safle am ddim neu heb dalu llawer.

## 1. Estynnwch groeso

### Dim cost

- Cynhaliwch hyfforddiant i'ch staff a'ch gwirfoddolwyr sy'n ymdrin â'r cyhoedd er mwyn creu amgylchedd sy'n fwy croesawgar i deuluoedd. Ystyriwch sut rydych yn cyfarch teuluoedd sy'n ymweld a sut y gallwch adael iddyn nhw wybod am y pethau y gallent eu gwneud yn ystod eu hymweliad. I wneud eich staff a'ch gwirfoddolwyr sy'n wynebu'r cyhoedd yn fwy hyderus, ystyriwch sut y gallwch wneud y gweithgareddau rhyngweithiol gyda theuluoedd yn fwy chwareus.
  **Adnodd:** Gwyliwch ein ffilmiau hyfforddi a darllenwch Croesawu teuluoedd i'ch safle. Gwelwch ein Adnoddau chwarae ac astudiaethau achos i gael mwy o syniadau am chwarae.
- Symudwch y digwyddiadau i deuluoedd i mewn i'r orielau fel eu bod yn fwy gweladwy i deuluoedd eraill a staff yr amgueddfa.
- Ystyriwch ddod yn Lle Diogel.

### Cost isel

- Prynwch arwydd lolipop neu fyrddau arddangos i gyfathrebu gweithgareddau i deuluoedd cyn gynted ag y byddent yn cyrraedd yr amgueddfa.
- Prynwch fathodynnau neu sashiau croesawu teuluoedd i staff a gwirfoddolwyr eu gwisgo yn ystod digwyddiadau prysur i deuluoedd. Mae hyn yn helpu teuluoedd i adnabod y staff pan mae ganddynt gwestiynau neu pan maen nhw angen cymorth.
- Rhowch gynnig ar ddefnyddio labelau croesawu teuluoedd fel eu bod yn gwybod pa bethau y gallent eu cyffwrdd a pha bethau na allent eu cyffwrdd, neu i rannu gwybodaeth allweddol am eich casgliadau.
  **Adnodd:** Mae rhai enghreifftiau difyr yn y blog hwn gan Mar Dixon.
- Rhowch gynnig ar gynhyrchu dehongliadau hawdd eu darllen i deuluoedd fel bod teuluoedd yn gallu archwilio eich casgliadau.
  **Adnodd:** Mae gan Leeds Museums and Galleries ganllaw ar greu dehongliadau cryno a chynhwysol i'r ymwelwyr i gyd.

## 2. Byddwch yn hygyrch i bawb

### Dim cost

- Gwnewch eich gwefan yn well drwy ychwanegu tudalen am fynediad, stori weledol neu fap synhwyraidd i helpu'r ymwelwyr i gyd i gynllunio eu hymweliadau.
  **Adnodd:** Cychwynnwch arni gyda'r canllaw am wefannau gan SEND in Museums.
- Ystyriwch faint y gallai diwrnod allan yn eich amgueddfa gostio. Allwch chi gynnwys rhai opsiynau costau is fel bod eich amgueddfa'n fwy hygyrch i amrywiaeth o deuluoedd?
  **Adnodd:** Gall ein hadnoddau Canllawiau i Docynnau Teulu Hyblyg, Caffis mewn Amgueddfeydd a Siopau mewn Amgueddfeydd roi fframwaith defnyddiol i chi.

### Cost isel

- Cynhaliwch sesiynau ymgynghori gyda grŵp lleol i wella eich darpariaeth mynediad i deuluoedd ac i ymwelwyr eraill. I ddiolch i bobl am roi eu hamser, gallech roi taleb iddynt ar gyfer y siop neu'r caffi neu rywbeth tebyg.
  **Adnodd:** Mae Museum Tales wedi ysgrifennu blog defnyddiol am ymgynghori â theuluoedd.
- Prynwch adnoddau i gefnogi amrywiaeth o ymwelwyr, fel amddiffynwyr clustiau, tortshys, teganau chwarae neu chwyddwydrau.
  **Adnodd:** Mae gan wefan SEND in Museums gyngor gwych am greu gwarbaciau synhwyraidd.

Darllenwch ein hadnoddau mynediad neu edrychwch ar y wefan SEND in Museums i gael syniadau eraill am wneud eich safle'n fwy hygyrch.

## 3. Gwnewch yr ymweliad yn hawdd a chyfforddus

### Dim cost

- Edrychwch i weld a allwch chi gofrestru ar gyfer y Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron neu cysylltwch â rhwydwaith bwydo ar y fron lleol i ganfod sut i groesawu bwydo ar y fron.
- Crëwch weithgareddau o fewn yr amgueddfa, fel taflenni lliwio i blant eu defnyddio yn y caffi (os oes gennych chi un).
  **Adnodd:** Darllenwch ein hadnoddau Caffis mewn Amgueddfeydd a Siopau mewn Amgueddfeydd i weld rhagor o awgrymiadau am wneud eich cyfleusterau'n addas i deuluoedd.
- Symudwch gadeiriau i fannau nad ydynt yn cael eu defnyddio i greu mannau addas a chyfforddus i deuluoedd, neu darparwch fannau lle gall teuluoedd fwyta eu bwyd eu hunain.
- Cynigiwch ddŵr tap am ddim a chofrestrwch ar y cynllun Refill.

### Cost isel

- Prynwch gasibo i deuluoedd fwyta cinio oddi tano neu fel lle i barcio pramiau.
- Prynwch stepiau codi fel bod plant ifanc yn gallu cyrraedd sinciau/toiledau neu ddangosiadau.

- Prynwch gyflenwadau o gewynnau, weips a chynhyrchion mislif. Gall hyn helpu teuluoedd neu bobl ifanc sydd eu hangen ar fyr rybudd yn ystod ymweliad.
- Os nad yw ymwelwyr yn gallu defnyddio bygis yn eich orielau, ystyriwch ddarparu sling/cludwr clun y gallent ei fenthyg.
- Prynwch lyfrau plant sy'n berthnasol i'ch casgliad a blychau i'w storio ynddynt. Rhowch y rhain wrth y mannau eistedd fel bod teuluoedd yn gallu eu helpu eu hunain a theimlo bod croeso iddynt aros a darllen. Gwnewch yn siŵr eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth dda o deuluoedd.
  **Adnodd:** Mae The Book Trust yn darparu rhestrau llyfrau â themâu defnyddiol i'ch helpu i gynnwys cyhoeddiadau nad ydynt yn heteronormadol a gwrth-hiliol.
- Ystyriwch greu Man Tawel yn eich amgueddfa, yn arbennig ar gyfer diwrnodau prysur. Gallai hwn fod yn lle dros dro, fel pabell gludadwy a osodwch gerllaw'r gweithgareddau, gyda chlustogau a theganau synhwyraidd tu mewn.
  **Adnodd:** Gwelwch ein hadnoddau Awtistiaeth mewn Amgueddfeydd a AAAA mewn Amgueddfeydd i gael rhagor o wybodaeth.

## 4. Cofiwch fod teuluoedd o bob siâp a maint i'w cael

### Dim cost

- Gwnewch arolwg o ymwelwyr i'ch helpu i ganfod pa fathau o deuluoedd sy'n ymweld â chi, yn ogystal â'r ymwelwyr posibl y gallech eu denu.
  **Adnodd:** Mae'r canllaw Understanding Your Audiences gan AIM yn cynnwys ffyrdd di-gost a chost isel o gasglu data am ymwelwyr.
- Crëwch lwybrau syml ar bapur neu ddefnyddiau hunan-dywys o fewn y cwmni i wahanol grwpiau oedran. I blant hŷn, allech chi ofyn i bobl ifanc sydd ar brofiad gwaith, Diwrnod Meddiannu neu sy'n gweithio tuag at ddyfarniad Dug Caeredin i weithio ar adnodd gyda chi?
- Defnyddiwch iaith gynhwysol wrth ryngweithio â theuluoedd. Gall hyn helpu pob ymwelydd i deimlo bod eich staff yn eu gweld ac yn eu croesawu nhw.
  **Adnodd:** Mae ein hadnodd LDHTC+ yn rhoi gwybodaeth am eiriau ac ymadroddion cynhwysol i'w defnyddio wrth gyfeirio at deuluoedd a phlant.

### Cost isel

- Crëwch grŵp ymgynghori, fel fforwm i deuluoedd neu grŵp ffocws, i'ch helpu i wella eich darpariaeth i deuluoedd.
- Prynwch adnoddau hunandywys, penagored, i helpu teuluoedd i archwilio, fel binocwlars, llyfrau, matiau meddal, teganau sy'n addas i blant o dan 5 oed neu ddis poced.
  **Adnodd:** Mae Museum of London wedi creu canllaw defnyddiol i greu adnoddau hunandywys i blant o dan 5 oed.
- Buddsoddwch mewn darluniau croesawu teuluoedd y gallwch eu defnyddio ar draws eich deunyddiau print ac ar-lein, o lwybrau i lyfrynnau am ddigwyddiadau, i'w gwneud nhw'n hawdd i deuluoedd eu hadnabod.

**Adnodd:** Rydym yn hoffi'r enghraifft hon o'r Museum of the Order of St John yn Llundain.

## 5. Cyfathrebwch yn dda

**Dim cost**

- Ychwanegwch dudalen i deuluoedd ar eich gwefan i helpu teuluoedd i gynllunio eu hymweliad ac i adael iddyn nhw wybod bod croeso iddynt ar eich safle. Dyma enghraifft o'r Andrew Carnegie Birthplace Museum. (Mae gan hyd yn oed The Great North Museum: Hancock dudalen we yn nodi sut mae'n cyflawni maniffesto Kids in Museums!)
  **Adnodd:** Gwelwch ein templed o dudalen we i deuluoedd i'ch helpu i gynllunio eich tudalen we eich hun i deuluoedd.
- Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau allanol i ennyn diddordeb ymwelwyr ac i ddenu teuluoedd newydd i ymweld. Anogwch deuluoedd i dynnu lluniau o'u hymweliad a'u rhannu nhw ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Ymunwch â grwpiau Facebook lleol a defnyddiwch wefannau sy'n rhestru digwyddiadau, fel ein calendr digwyddiadau i deuluoedd. Ystyriwch sut y gallwch ymateb mewn ffordd gadarnhaol i adolygiadau TripAdvisor.
- Ystyriwch sut y mae lledaenu'r gair rhwng pobl yn gallu eich helpu i ddenu teuluoedd – er enghraifft, a allech chi ddosbarthu taflen wybodaeth i blant yn dilyn trip ysgol? A oes gan unrhyw rai o'ch staff neu wirfoddolwyr unrhyw gysylltiadau ag athrawon ysgol neu grwpiau mewn lifrai lleol?
- Cynhaliwch Ddiwrnod Meddiannu Digidol gyda phobl ifanc lleol. Gall hwn fod yn ffordd wych o annog mwy o bobl ifanc i ymweld â'ch safle oherwydd mae tystiolaeth yn dangos bod profiad digidol da'n ysbrydoli'r gynulleidfa hon i fod eisiau ymweld ag amgueddfa neu sefydliad treftadaeth.
- Crëwch gasgliad o luniau o ansawdd da o deuluoedd yn mwynhau gwahanol agweddau o'ch amgueddfa. Gwnewch yn siŵr eu bod yn cynnwys gwahanol fathau o deuluoedd ac yn cynrychioli eich cymuned leol.
  **Adnodd:** Mae ein hadnodd Marchnata eich amgueddfa i deuluoedd yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â sut i wneud hyn.

**Cost isel**

- Cynhaliwch stondin mewn ffair neu ddigwyddiad cymunedol lleol.
- Cynhaliwch sesiwn allgymorth gyda phartner yn y gymuned.
- Crëwch daflenni gwybodaeth i'w rhannu mewn llyfrgelloedd, caffis, ysgolion a mannau eraill yn lleol y mae teuluoedd yn ymweld â nhw. Cofiwch eu llwytho i'ch gwefan hefyd.

## 6. Byddwch yn rhan weithredol o'ch cymuned

**Dim cost**

- Crëwch arddangosiadau o waith gan blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn gweithdai neu orielau.
- Dangoswch hoff wrthrychau y mae plant, pobl ifanc a theuluoedd wedi eu dewis ar-lein.
- Cynhaliwch Ddiwrnod Meddiannu Digidol neu Ddiwrnod Meddiannu a defnyddiwch y digwyddiad i ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

**Cost isel**

- Ewch ati gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i greu dangosiadau sy'n cynnwys gwrthrychau a labelau o fewn arddangosiadau sy'n bodoli'n barod.
  **Adnodd:** Dyma enghraifft o Amgueddfa Sedgwick yng Nghaergrawnt.
- Cynhyrchwch ddigwyddiadau ar y cyd gyda phlant a phobl ifanc.
  **Adnodd:** Dyma enghraifft o brosiect o Amgueddfa Woodhorn yn Northumberland.
- Sefydlwch Banel Ieuenctid i roi llais i bobl ifanc yn eich sefydliad.
  **Adnodd:** Edrychwch ar ein canllaw ynglŷn â sut i wneud hyn.
- Ystyriwch ddarparu lle i grwpiau pobl ifanc neu deuluoedd lleol eu defnyddio.
- Sicrhewch adborth ac ymgynghorwch â phlant, pobl ifanc a theuluoedd lleol am yr hyn maen nhw eisiau ei wneud yn eich amgueddfa.
  **Adnodd:** Mae Share East wedi creu pecyn cymorth gwerthuso cynhwysfawr sy'n cynnwys dulliau annhraddodiadol o gasglu data defnyddiol.
- Ystyriwch sut y gallwch gefnogi lles plant a theuluoedd a gweithredu ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.
  **Adnodd:** Darllenwch ein hadnoddau am hyrwyddo lles, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol a datblygu arferion gwrth-hiliol.

Gall sefydliadau treftadaeth lofnodi'r maniffesto Kids in Museums unrhyw bryd ar ein gwefan.

Os yw eich sefydliad wedi llofnodi ein Maniffesto, anfonwch esboniad a llun atom o un peth da rydych yn ei wneud i groesawu teuluoedd: getintouch@kidsinmuseums.org.uk Byddwn yn ei rannu yn rhan o'n nodwedd #ManifestoMonday ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i ysbrydoli pobl eraill ac i rannu arferion gorau.